

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
Dogfen Ymgynghori
– Gwybodaeth am yr Ysgolion

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille ac mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 neu 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk i drefnu hyn a/neu i gyflwyno unrhyw ymholiadau.

Cynnwys

| | |
|---|----------|
| Cyflwyniad..... | 3 |
| Cefndir | 4 |
| Diben y ddogfen hon..... | 4 |
| Aseiad o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion | 4 |
| Aseiad o berfformiad addysgol..... | 5 |
| Ysgol Gyfun Whitmore..... | 8 |
| Gwybodaeth gefndir..... | 9 |
| Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol | 9 |
| Perfformiad addysgol..... | 10 |

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro trwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli a.y.b.) (Cymru) 2014.

Diben y ddogfen hon

Darparu trosolwg o'r ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn, gan gynnwys:

- gwybodaeth gefndir am yr ysgolion;
- yr asesiadau diweddaraf o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion; a hefyd
- yr asesiadau diweddaraf o berfformiad addysgol yr ysgolion.

Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu fesul ysgol ac fe'i defnyddiwyd i oleuo'r adran "Goblygiadau'r cynnig" yn y ddogfen ymgynghori (o dudalen 13).

Asesiad o adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu dysgu. Un o'r dulliau a ddefnyddir i farnu adeiladau a chyfleusterau ysgolion yw arolwg o gyflwr adeiladau. Mae arolwg o gyflwr adeiladau'n cynnwys asesiad gweledol o bob rhan ohonynt sy'n agored i adnabod diffygion sylweddol ac eitemau sydd wedi mynd â'u pen iddynt.

Mae'r Cyngor yn arolygu ac yn categoreiddio adeiladau ei ysgolion ar raddfa 4 pwynt o dda i wael.

Tabl 1 – System Graddio Cyflwr

| Gradd | Disgrifiad |
|----------|---|
| Da | Yn perfformio fel a fwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon. |
| Boddhaol | Yn perfformio fel a fwriadwyd ond mân ddirywiad i'w weld. |
| Gwael | Diffygion mawr i'w gweld a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd. |
| Bad | Wedi cyrraedd diwedd ei oes a/neu risg ddifrifol ei fod ar fin methu. |

Mae'r Cyngor hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni gan nodi argymhellion o'r arolwg diweddaraf o gyflwr adeiladau a rhoi cyfrif am waith adeiladu a wnaed wedi hynny.

Asesiad o berfformiad addysgol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Caiff perfformiad ei fonitro gan ddefnyddio dwy system; adroddiad Estyn o arolygiadau a system Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad i fonitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi'r broses gwella ysgolion;

- Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru (CACCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Adroddiad Estyn

Ym mis Medi 2017 cyflwynodd Estyn Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ar gyfer yr holl ysgolion ledled Cymru. Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol sy'n cynnwys pedair barn:

| Tabl 2 – Meini Prawf Arolygu Estyn | | |
|------------------------------------|--|--|
| Barn | Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu cyn mis Medi 2017 | Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu ar ôl mis Medi 2017 |
| Rhagorol | <ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig | <ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |

| | | |
|------------|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector | |
| Da | <ul style="list-style-type: none"> Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol | <ul style="list-style-type: none"> Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| Digonol | <ul style="list-style-type: none"> Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella | <ul style="list-style-type: none"> Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| Anfoddhaol | <ul style="list-style-type: none"> Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau | <ul style="list-style-type: none"> Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categorieiddio ysgolion

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd ar gyfer categorieiddio ysgolion; cafodd hon ei diwygio ym mis Medi 2017. Mae'r system gategoreiddio'n ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella er mwyn pennu lefel y gefnogaeth y mae ei hangen. Wedyn mae sefydliadau megis CACCDC a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i adnabod, darparu a/neu froceru unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Caiff y system gategoreiddio ysgolion ei disgrifio isod:

| Tabl 3 – Meini Prawf Llywodraeth Cymru | |
|---|---|
| Categori | Yr hyn y mae'r categori'n ei olygu |
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella. |
| Oren | Ysgol y mae angen ei gwella ac y mae angen cymorth arni i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn cael cefnogaeth ddwys ar unwaith. |

Er mwyn pennu'r categori cefnogaeth a gaiff ei egluro yn y tabl uchod, gosodir ysgolion mewn un o'r pedwar grŵp ar gyfer gallu i ddwyn gwelliant (A-D) gydag A yn golygu'r uchaf o ran gallu i wella. Nid yw'r system ddiwygiedig ar gyfer categorieiddio ysgolion a gyflwynwyd ym mis Medi 2017 yn defnyddio gradd safonau.

O'r 45 o ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg, mae 31 wedi'u categorieiddio'n wyrdd, 20 yn felyn, 4 yn oren, ac 1 yn goch.

O'r 8 ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg, mae 3 wedi'u categorio'n wyrdd, 4 yn felyn, ac 1 yn oren.

Nid yw Unedau Cyfeirio Disgyblion yn rhan o'r broses ymgynghori statudol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun categorio, gweler canllawiau Llywodraeth Cymru i rieni ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf>

Ysgol Gyfun Whitmore

Gwybodaeth gefndir

Arferai Ysgol Uwchradd Whitmore fod yn ysgol 11-18 i fechgyn, Ysgol Gyfun y Barri, ac fe agorodd ym 1966. Bu Ysgol Gyfun y Barri'n gweithredu mewn partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Bryn Hafren fel Chweched Dosbarth y Barri i ddarparu addysg ôl-16 cyfrwng Saesneg.

Daeth yr ysgol yn ysgol gydaddysgol dan yr enw newydd, Ysgol Uwchradd Whitmore, yn 2018. Mae gan yr ysgol ei chweched dosbarth ei hun.

Yn 2019, roedd gan yr ysgol gyllideb o £4,764 y disgybl.

| Tabl 4 – Gwybodaeth am Ysgol Gyfun Whitmore | | | | |
|---|-----------|---------|--------------|----------|
| Enw'r ysgol | Math | Iaith | Ystod oedran | Capasiti |
| Ysgol gyfun Whitmore | Cymunedol | Saesneg | 11 - 19 | 1,110 |

Adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn y Barri ac mae'r safle drws nesaf i ysgol uwchradd Gymraeg y Fro, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Nododd arolwg y Cyngor o gyflwr adeiladau a gynhaliwyd yn 2019 fod yr adeilad yn "Wael" o ran ei gyflwr a'i addasrwydd.

Mae adeilad presennol yr ysgol yn mynd i gael ei ddisodli gan adeilad tri llawr â lle i 1,100 o ddisgyblion. Bydd hyn yn cynnwys manau sy'n addas i'w defnyddio gyda disgyblion ADY.

Perfformiad addysgol

Adroddiad Estyn (Mawrth 2013)

Nid yw Ysgol Uwchradd Whitmore wedi cael ei harolygu gan Estyn eto. Mae'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer Ysgol Gyfun y Barri i'w weld yma: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Inspection%2520report%2520Barry%2520Comprehensive%2520School%25202013%2520%2528English%2520only%2529_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf

Crynodeb

| Tabl 2 – Crynodeb o Ganlyniadau Arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Gyfun y Barri | |
|--|---------|
| Maes arolygu | Barn |
| Safonau | Da |
| Lles | Digonol |
| Profiadau dysgu | Da |
| Addysgu | Digonol |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Amgylchedd dysgu | Da |
| Arweinyddiaeth | Da |
| Gwella ansawdd | Da |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da |
| Rheoli adnoddau | Da |

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn **dda** am y rhesymau canlynol:

- mae disgyblion yn perfformio'n dda yng nghyfnod allweddol 4;
- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi ac mae ganddynt sgiliau llythrennedd sydd wedi datblygu'n dda;
- mewn llawer o wersi, mae'r addysgu'n effeithiol o ran helpu disgyblion i ddysgu;
- ceir gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da ar gyfer y disgyblion mwyaf agored i niwed;
- mae Senedd yr Ysgol yn gyfrwng effeithiol ar gyfer rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddylanwadu ar sawl agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol; ac

- mae ystod eang o gyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn enwedig trwy weithio mewn partneriaeth yng nghyfnod allweddol 4 a'r cyfnod ôl-16.

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella'n **dda** am y rhesymau canlynol:

- mae arweinwyr yn darparu ymdeimlad clir o gyfeiriad ac maent wedi sefydlu disgwyliadau uchel;
- mae'r holl staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau a cheir llinellau cyfathrebu clir;
- mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl a phenodol am yr agweddau ar waith yr ysgol y mae angen iddynt wella;
- mae gweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn gadarn; ac
- mae hanes o wneud gwelliannau, er enghraifft yng nghyfnod allweddol 4, o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol, a'r cynnydd diweddar o ran gwella Cymraeg ail iaith a phresenoldeb

Argymhellion:

- A1 Gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith ac yng nghyfnod allweddol 3
- A2 Gwella presenoldeb a phrydlondeb
- A3 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi a bod ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu
- A4 Mynd i'r afael â'r diffygion yn yr addysgu
- A5 Cynyddu cysondeb wrth farcio gwaith disgyblion a rhoi'r system ar gyfer tracio a chefnogi cynnydd yr holl ddisgyblion ar waith yn llawn
- A6 Darparu gweithred addoli ar y cyd feunyddiol

| Tabl 3 – Canlyniadau meysydd arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Gyfun y Barri | | |
|---|-------|--|
| Maes Arolygu Estyn | Gradd | Pwyntiau Allweddol |
| Safonau | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf, ond fe gododd yn sydyn yn 2012 ac mae bellach yn well na pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad gan mwyaf wedi bod tua'r un fath â chyfartaledd y teulu ar gyfer bechgyn. • Ychydig iawn o ddisgyblion adawodd yr ysgol heb gymhwyster, er bod y gyfran wedi codi ychydig yn 2012. • Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn is na pherfformiad ysgolion tebyg ac mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn is na'r disgwyliadau. |

| | | |
|-----------------|---------|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn ôl y disgwyl hefyd. • Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau. |
| Lles | Digonol | <ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol, ond nid yw lleiafrif yn teimlo bod yr ysgol yn ymdrin yn dda â bwlio. Mae llawer yn cymryd rhan mewn cyfleoedd rheolaidd ar gyfer ymarfer corff ac mae mwyafrif yn deall beth yw ystyr bod yn iach. • Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn enwedig o amgylch yr ysgol yn ystod amser egwyl ac amser cinio, a rhwng gwersi. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at waith, mae ganddynt ddiddordeb brwd yn yr hyn y maent yn ei wneud, ac maent yn cynnal lefelau canolbwyntio uchel. • Mae Senedd yr Ysgol yn nodwedd gref a llwyddiannus ar yr ysgol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddylanwadu ar ystod eang o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. • Mae disgyblion yn cyfranogi mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol sy'n helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau bywyd. |
| Profiadau dysgu | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn diwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol, ac mae'r cwricwlwm cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn ateb y gofynion. • Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd o fudd i ddysgu'r disgyblion. Mae disgyblion yn cyfranogi'n weithredol mewn clybiau, cymdeithasau, chwaraeon a gweithgareddau elusennol. • Mae'r ysgol wedi llwyddo i wella sgiliau siarad y disgyblion ac mae ei flaenoriaeth gyfredol i wella ysgrifennu estynedig wedi gwella'r ddarpariaeth mewn lleiafrif o bynciau, ond nid yw wedi cael effaith lawn ym mhob pwnc eto. • Ar y cyfan, mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am y Gymraeg a diwylliant Cymru mewn modd priodol. • Mae trefniadau ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryf. |
| Addysgu | Digonol | <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol sicr, ac mae llawer ohonynt yn cynllunio gwersi'n dda ac yn cyfleu amcanion dysgu eglur. Mae llawer o wersi'n cynnwys gweithgareddau sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion disgyblion ac yn cynnwys strategaethau sy'n pwysu a mesur y cynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud. |

| | | |
|-----------------------------|----|--|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Y rheswm dros hyn yw bod cyflymder y wers yn aml yn rhy araf, ac nad yw gweithgareddau dysgu'n rhoi digon o her nac yn cydfynd yn ddigon da ag anghenion disgyblion. • Mae lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol a defnyddiol i ddisgyblion ar eu perfformiad ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn glir sut gynnydd y maent yn ei wneud a beth y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. • Mae'r ysgol yn casglu ac yn dadansoddi amrywiaeth eang o ddata ar berfformiad yn drylwyr. Mae'n defnyddio system dracio gynhwysfawr sy'n monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. • Mae rhieni'n cael adroddiadau eglur ac addysgiadol ar gyflawniad a chynnydd eu plant. |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol yn rhoi cymorth gwerthfawr mewn amgylchedd gofalgwr ac yn rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer datblygiad personol a lles disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwyaf agored i niwed. • Mae staff yn gweithio'n dda gyda'r ysgolion cynradd partner i sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym a chael gwared ar unrhyw rwystrau i ddysgu. Mae disgyblion a rhieni'n cael gwybodaeth ac arweiniad cynhwysfawr wrth iddynt wneud dewisiadau ar gyfer cyrsiau cyfnod allweddol 4 ac ôl-16. • Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn ateb y gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu. • Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth trylwyr ac effeithiol. Mae'r cydlynnydd anghenion addysgol arbenigol yn adnabod anghenion disgyblion yn glir trwy ymarfer cynhwysfawr i fapio'r ddarpariaeth. Mae ymyriadau'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Mae trefniadau gweithio amlasiantaeth ac ymwneud gan wasanaethau arbenigol yn cyfrannu at lwyddiant y darpariaethau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. |
| Amgylchedd dysgu | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae Ysgol Gyfun y Barri'n ysgol gynhwysol sy'n cynnig mynediad cyfartal i'w disgyblion at bopeth y mae'n ei darparu. • Ledled yr ysgol mae'r ystafelloedd yn diwallu anghenion disgyblion yn dda gyda'r ganolfan adnoddau dysgu, cyfleusterau arlwy, ac ystafelloedd cerddoriaeth a drama'n arbennig o effeithiol. Mae'r adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ond mae ansawdd yr addurno mewnol yn amrywio. Mae to priif adeilad yr ysgol mewn cyflwr gwael ac nid yw ffabrig allanol y bloc celf yn addas i'w ddiben. • Mae adnoddau dysgu'n diwallu anghenion disgyblion yn dda gyda darpariaeth arbennig o dda ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. |
| Arweinyddiaeth | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n cael ei deall yn dda gan staff a disgyblion. |

| | | |
|----------------------------|----|---|
| | | <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr holl aelodau o staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ac y maent yn cael eu dwyn i gyfrif amdanynt. • Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn bwrpasol gyda ffocws ar wella safonau. Mae eu cysondeb ac ansawdd wedi gwella o ganlyniad i agendâu mwy rheolaidd a ffurfiol. • Mae data wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn llawer o adolygiadau adrannol i herio perfformiad. • Mae gan yr ysgol gorff llywodraethu cryf a phrofiadol a arweinir yn effeithiol gan gadeirydd ac is-gadeirydd y llywodraethwyr. |
| Gwella ansawdd | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso eang sy'n cael eu cynllunio'n dda ac yn gydlynol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi sylw cynyddol i ddadansoddi data ar berfformiad ac yn gwneud defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac addysgu. • Mae uwch arweinwyr a rheolwyr yn cynhyrchu adroddiad hunanwerthuso cynhwysfawr a defnyddiol ar gyfer yr ysgol gyfan. Fodd bynnag, er ei fod yn fanwl ac yn arfarnol, nid yw'n rhoi sylw digonol i ddiffygion mewn ychydig o bynciau unigol ac mewn agweddau ar addysgu. • Mae cynlluniau datblygu pynciol a luniwyd gan arweinwyr canol yn nodi'n briodol sut y bydd eu timau'n cyfrannu at yr amcanion ysgol-gyfan. • Mae gweithgareddau datblygu proffesiynol yn seiliedig ar anghenion a adnabuwyd a cheir rhaglen eang i'w diwallu. Mae bron pob aelod o staff yn rhan o grwpiau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau datblygu allweddol yr ysgol megis addysgu, dysgu ac asesu. Mae cysylltiadau ag ysgolion eraill wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i wella safonau a'r ddarpariaeth. |
| Gweithio mewn partneriaeth | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd effeithiol ag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn ehangu opsiynau dysgwyr yn llwyddiannus ac yn eu helpu i ymateb yn dda i'r her a'r cymorth y maent yn eu cael. • Mae'r ysgol yn gweithio mewn modd cydgynhyrchiol gydag ysgolion cynradd sy'n bartneriaid iddi i gymedroli cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. • Ceir cydweithio cryf a sefydledig gydag Ysgol Bryn Hafren, a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r partneriaethau hyn yn ehangu'r ystod o gyrsiau mewn modd buddiol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ac yn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau. • Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ystod eang o fusnesau lleol, mudiadau cymunedol ac asiantaethau eraill. |
| Rheoli adnoddau | Da | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol gydag athrawon â chymwysterau addas i ddarparu'r cwricwlwm. |

| | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> Mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol ac wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r diffyg yn y gyllideb. Mae gwariant yn cael ei gynllunio'n dda i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, y swyddog cyllid, y pennaeth cynorthwyol ac is-bwyllgor y corff llywodraethu. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn yn y consortiwm chweched dosbarth i gael mynediad at adnoddau ehangach a gwella'r ddarpariaeth. |
|--|--|

System Llywodraeth Cymru ar gyfer categorreiddio ysgolion

Mae'r adroddiad categorreiddio ar gyfer Ysgol Gyfun Whitmore i'w gael yma:

<https://mylocalschool.gov.wales/School/6734068?lang=en>

| Tabl 4 – Categoriâu Safonau a Gwella Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Uwchradd Whitmore | | | |
|---|---------------|---------------|---------------------|
| Dyddiad Cyhoeddi | Gradd Safonau | Gallu i Wella | Categori ar y Cyfan |
| Ionawr 2020 | Amherthnasol | B | Melyn |
| Ionawr 2019 | Amherthnasol | B | Melyn |
| Ionawr 2018 | Amherthnasol | B | Melyn |
| Ionawr 2017 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

Adroddiad Categorreiddio Cenedlaethol Ionawr 2020

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad categorreiddio cenedlaethol

| Tabl 5 – Adroddiad Categorreiddio Cenedlaethol ar gyfer Ysgol Gyfun Whitmore (2019-2020) | |
|--|--|
| Maes Arolygu | Pwyntiau Allweddol |
| Safonau | <ul style="list-style-type: none"> Mae safonau yng nghyfnod allweddol 3 (CA4) yn dda ar y cyfan. Er enghraifft, mae perfformiad ar lefel 5 neu uwch (L5+) ar gyfer Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ar dangosydd pynciau craidd (DPC) yn 93.9%, 97.0%, 97.7% a 92.4% yn y drefn honno. Mae'r canlyniadau hyn yn uwch na chyfartaleddau Cymru. Ar gyfer L5+, Saesneg yw'r pwnc craidd â'r perfformiad isaf. Mae sgiliau ysgrifennu'r disgyblion yn wannach na'u sgiliau llafaredd a darllen. Ar lefel 6+ (L6+), mae perfformiad ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 60.6%, 69.7% a 67.4% yn y drefn honno. Mae'r canlyniad ar gyfer mathemateg yn gyson â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth ill dau'n gyson â'r priod gyfartaleddau ar gyfer Cymru. Ar lefel 7+ (L7+), mae perfformiad ar |

| | |
|---------------|--|
| | <p>gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 26.5%, 29.5% a 28.0%. Mae'r canlyniad ar gyfer Saesneg yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson â chyfartaledd Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud o leiaf un lefel o gynnydd. Ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae oddeutu hanner y disgyblion yn gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd. • Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYADd yn gwneud o leiaf un lefel o gynnydd ar draws y cyfnod allweddol. Ar gyfer Saesneg, mae hanner y disgyblion sy'n gymwys i gael PYADd yn gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd, ac ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth mae lleiafrif yn gwneud dwy lefel neu fwy o gynnydd. Ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYADd yn cyflawni o leiaf L5+, y mae'r mwyafrif ohonynt yn cyflawni L6+ neu uwch ar gyfer mathemateg a'u hanner yn cyflawni L6+ neu uwch ar gyfer gwyddoniaeth. Ar gyfer Saesneg, mae bron pob disgybl sy'n gymwys i gael PYADd yn cyflawni o leiaf L5+, y mae lleiafrif ohonynt yn cyflawni L6+ neu uwch. • Ar L5+, mae'r perfformiad ar gyfer yr holl pynciau di-graidd yn uwch na'r priod gyfartaleddau ar gyfer Cymru. Ar L6+, mae deilliannau ar gyfer llawer o bynciau di-graidd yn uwch na chyfartaleddau Cymru. Ar L7+, mae'r canlyniadau ar gyfer ychydig dros hanner y pynciau di-graidd yn is na chyfartaleddau Cymru. • Ar gyfer cyfnod allweddol 4, yn 2018-19, 342.9 yw'r sgôr naw wedi'i gapio newydd. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y llythrennedd gorau yn 36.8 a'r rhifedd gorau yn 38.9. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer gwyddoniaeth yn 36.0. Mae perfformiad ar gyfer sgôr pwyntiau'r dystysgrif her sgiliau'n 33.8. • Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyflawni'n dda mewn ychydig iawn o bynciau. Er enghraifft, mewn cerddoriaeth. Fodd bynnag, ar gyfer oddeutu hanner y pynciau, mae mesurau gwerth ychwanegol yn gymharol wan. • Ar gyfer y mesurau uchod, mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael PYADd yn debyg i'r disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYADd. • Ar y cyfan, am y tair blynedd ddiwethaf, mae safonau ar gyfer ôl-16 yn gwella. Yn 2018-2019, mae perfformiad ar gyfer y trothwy lefel 3 yn 98.6%. Mae perfformiad ar gyfer tair A*-A yn 21.6% ac ar gyfer tair A*-C yn 58.1%. Mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r priod gyfartaleddau ar gyfer Cymru. • Ar gyfer celf (crefft), mathemateg, ffiseg, a'r dystysgrif her sgiliau uwch, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac mae perfformiad yn gryf. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gymharol wan ar gyfer nifer o bynciau eraill. • Mae'r gyfradd cadw o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13 wedi gwella o 52.7% yn 2017-2018 i 78.9% yn 2018-2019. Mae'r gyfradd cadw o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12 yn 43.0% ac yn debyg i 2017-2018. • Mae presenoldeb yn 2018-2019 yn 93.9%. Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. |
| Gallu i Wella | <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol gydaddysgol newydd a agorodd ym mis Medi 2018 yw Ysgol Uwchradd Whitmore. Mae'r ysgol dan arweinyddiaeth pennaeth gweithredol a phennaeth yr ysgol. Mae'r sylwebaeth isod yn gwerthuso'r flwyddyn gyntaf o waith a wnaed ers agor yr ysgol. |

| | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu gweledigaeth ac amcanion strategol yr ysgol. Maent yn eu cyfleu trwy arwyddair yr ysgol 'Taith i Ragoriaeth'. Mae'r ysgol yn rhannu ei gweledigaeth a'i hamcanion yn effeithiol gyda llywodraethwyr, staff, ysgolion cynradd cyswllt, disgyblion a rhieni. Wrth wraidd y weledigaeth hon, mae uchelgais yr ysgol i gyfleu disgwyliadau uchel, lefelau uchel o gymorth a lefelau uchel o her. Er mwyn cyflawni hyn mae arweinwyr allweddol yn ymgysylltu â'i chymuned gydag effaith gynyddol Er enghraifft, mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda chlwstwr cynradd yr ysgol i gytuno ar raglen bontio fanwl. • Mae gan y corff llywodraethu newydd ystod dda o brofiadau perthnasol. Mae llywodraethwyr yn gyfarwydd â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Gydag effaith gynyddol, maent yn gweithredu fel tîm effeithiol i ddwyn arweinwyr i gyfrif. Wrth ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol, mae'r corff llywodraethu wedi ymgysylltu'n dda â hyfforddiant o ansawdd da a ddarperir gan ymgynghorydd allanol. O ganlyniad i hyn mae'r corff llywodraethu wedi cynyddu ei allu i gefnogi'r ysgol a herio'i pherfformiad. Er enghraifft, mae'r corff llywodraethu wedi sefydlu grŵp monitro i fonitro cynnydd adrannau targed y mae'n ofynnol iddynt wella. • Mae gan arweinwyr gynlluniau clir ac maent yn gweithredu newid y mae ethos yr ysgol yn dod i'r amlwg ohono. Er enghraifft, mae'r logo, y wisg ysgol, a'r strwythur staffio newydd a'i gasgliad o bolisiau'n cyfrannu at sefydlu set gyffredin o werthoedd ar draws cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn galluogi staff a phartneriaid eraill i gyfranogi'n dda yn y broses newid, trwy holiaduron a gweithgareddau ymgysylltu eraill. • Mae arweinwyr yn parhau i ddatblygu a mireinio dull hunanwerthuso'r ysgol. Mae prosesau cyfredol yn systematig ac yn gywir at ei gilydd. Mae'r ysgol yn seilio'i dull ar amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys teithiau dysgu, adolygiadau o lyfrau, holiaduron, a gwrando ar ddysgwyr. Ar hyn o bryd, mae arsylwadau ar wersi'n gyfyngedig i weithdrefnau rheoli perfformiad yn unig. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn parhau i ymgysylltu ag undebau i gytuno ar fframwaith ar gyfer arsylwadau ar wersi ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n cyfrannu at ddatblygiad staff. Mae arweinwyr hefyd yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y dysgu a'r addysgu, a gwaith disgyblion. O ganlyniad i weithgareddau monitro, mae arweinwyr yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau'r ysgol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwella, gweithgarwch monitro a gwerthusiadau adrannol yn gyson o ansawdd da. Yn yr ychydig o achosion lle mae'r ansawdd yn is na safonau y cytunwyd arnynt, rhoddwyd cymorth i ddwyn gwelliant. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith hwn. • Mae arweinwyr a staff yn glir ynglŷn â'r blaenoriaethau y maent yn rhoi sylw iddynt yng nghynllun gwella'r ysgol. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion ac mae ganddynt bwyslais clir ar gyrraedd safonau uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr. Yn ganolog i hyn mae'r dadansoddiad a defnydd o ddata ar berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn nodwedd gref iawn ar yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion, i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, ac i oresgyn effaith tlodi ar ddysgu plant. Hefyd, mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r rhanbarth a'i chlwstwr lleol i gyflwyno'r Ddeddf ADY newydd ac i baratoi ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. |
|--|--|

| | |
|--------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl arweinwyr a staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth gyffredin am nodweddion dysgu ac addysgu rhagorol, a sut i ddangos y rhain fel rhan o'u hymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan arweinwyr strategaethau effeithiol i adnabod a rhannu arfer effeithiol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn buddsoddi'n dda i ddatblygu arweinwyr canol o ansawdd da sydd â'r sgiliau i lywio tuag at wella safonau a'r dysgu a'r addysgu. • Mae arweinwyr a staff yn manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda'i hysgol gyfagos, Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Mae cydweithio rhwng y ddwy ysgol yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r ddwy ysgol yn defnyddio'r un dull o dracio a dadansoddi data. Hefyd, maent yn gweithio'n dda iawn i ddarparu arlwy ôl-16 sy'n darparu ystod dda o ddewisiadau ar gyfer disgyblion, yn ogystal â dwyn arbedion ariannol. Mae'r cydweithio'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at feithrin ei gallu ar gyfer arwain a dysgu ac addysgu. Er enghraifft, bu cydweithio cryf rhwng y rheolwyr data, uwch arweinwyr a nifer o adrannau allweddol, megis mathemateg, astudiaethau crefyddol ac ieithoedd tramor modern. Mae arweinwyr hefyd yn cynllunio datblygu proffesiynol effeithiol ar gyfer cynorthwyrwyr cymorth dysgu a staff gweinyddol o'r ddwy ysgol. • Dros y flwyddyn, mae'r ysgol wedi gwella'i threfniadau gweithio gyda'i chlwstwr newydd o ysgolion cynradd a'i chymunedau lleol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau cryf ag arweinwyr, rhieni a disgyblion ysgolion cynradd. Mae'r pennaeth, llywodraethwyr a swyddog cyllid yr ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda swyddogion yr awdurdod lleol i gytuno ar gyllideb yr ysgol ac i sicrhau prosesau cryf o ran rheolaeth ariannol. |
| Argymhellion | <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu ymyriad penodol ar gyfer ymddygiad a lles ac arlwy gwricwlaidd i ail-ennyn ymgysylltiad disgyblion sydd wedi dadrithio, er mwyn effeithio ar safonau cyflawniad. • Gwella cysondeb yr addysgu ar draws yr ysgol. • Gwella perfformiad adrannau a adnabuwyd yn CA4 ac ar gyfer pynciau a adnabuwyd yn y 6ed dosbarth. • Datblygu strategaethau recriwtio ac arlwy gwricwlaidd ôl-16, er mwyn cynyddu'r gyfradd cadw rhwng Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12. • Rhoi diwygiadau i'r system addysg ar waith, gan gynnwys y cwricwlwm newydd i Gymru a'r Ddeddf ADY, gan gynnwys strategaethau i gefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac wedi dioddef trawma. |